

Pecyn Dogfennau



Wendy Walters
Prif Weithredwr,
Chief Executive,
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

DYDD IAU, 4YDD GORFFENNAF, 2019

AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R CYNGOR SIR A GYNHELIR YN Y SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN AM 10.00 YB AR DDYDD MERCHER, 10FED GORFFENNAF, 2019 ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

Wendy Walters

PRIF WEITHREDWR



AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

Swyddog Democraidd:	Llinos Jenkins
Ffôn (Ilinell uniongyrchol):	(01267) 224088
E-bost:	LISJenkins@sirgar.gov.uk
Cyf:	AD016-001



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.
3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.
4. CADARNHAU A LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFODD Y CYNGOR A GYNHALIWDYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-
 - 4.1 15EG MAI, 2019; 5 - 14
 - 4.2 12EG MEHEFIN, 2019. 15 - 24
5. CYFLWYNIAD GAN DAFYDD LLYWELYN, COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS.
6. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).
7. CWESTIYNAU GAN AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).
8. CYFLWYNO DEISEB.

"Mae trigolion a defnyddwyr yr harbwr wedi gofyn i ni drefnu deiseb yn gofyn am adfer ar unwaith y toiledau ar ochr dwyreiniol yr harbwr ym Mhorth Tywyn gerllaw'r hen orsaf bad achub.

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn etholwyr pryderus ac yn ddefnyddwyr yr harbwr sy'n annog ein harweinwyr i weithredu nawr i ailosod y toiledau."
9. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-
 - 9.1 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD ALUN LENNY:-

"Mae'r Cyngor hwn yn credu bod Sir Gaerfyrddin gyfan yn 'ardal lle mae sensitifrwydd a phwysigrwydd ieithyddol' a bod y system gynllunio'n cyflawni rôl hanfodol o ran cefnogi'r Gymraeg **ledled y sir**. I'r perwyl hwn, rydym yn credu y dylai'r iaith fod yn Ystyriaeth Gynllunio Berthnasol yn yr holl geisiadau ar gyfer datblygiad o bum tŷ neu ragor mewn ardaloedd gwledig, a datblygiad o ddeg tŷ neu ragor mewn ardaloedd trefol ym mhob cymuned, beth bynnag yw canran y siaradwyr Cymraeg.

Rydym yn parhau o'r farn bod y polisi hwn yn angenrheidiol a bod cyfiawnhad drosto oherwydd:

- yr angen i fynd i'r afael â'r lleihad mawr ac annisgwyl yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin yn ôl Cyfrifiad 2011.
- mae'n cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
- mae'n cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig "Cymru â diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu: cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg..."

9.2 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD BILL THOMAS:-

"Ym mis Ebrill y llynedd, cefnogwyd cynnig yn unfrydol gan Gyngor Sir Caerfyrddin a oedd yn cynnwys galw ar y Cyngor i leihau deunyddiau plastig untro yn adeiladau a swyddfeydd y Cyngor. Roedd y cynnig hwnnw hefyd yn galw ar y Cyngor i annog ysgolion i roi'r gorau i ddefnyddio deunyddiau plastig untro a mynd ati i ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy.

Cyfeiriwyd at y cynnig hwnnw eleni pan ymatebodd Arweinydd y Cyngor i gwestiwn gan Coral Sylvan, 11 oed, ynghylch newid yn yr hinsawdd. Yn yr un cyfarfod, cytunom i ddatgan argyfwng hinsawdd yn ein sir.

Mae disgyblion mewn ysgolion ledled ein sir wedi ymgymryd â'r her hon. Yng nghyfarfod mis Mehefin y llywodraethwyr yn Ysgol y Felin, dywedwyd wrthym fod Pwyllgor Eco'r ysgol wedi gofyn am gynhwysyddion diblastig ar gyfer llaeth. Pan wnaeth yr ysgol gysylltu â'r Cyngor, dywedwyd wrthynt nad oedd modd newid y contract llaeth ac na fynegwyd unrhyw ddiddordeb arall mewn darparu poteli gwydr.

Er mwyn cefnogi'r ymgyrch i leihau'r defnydd o ddeunyddiau plastig untro yn yr ysgol, mae Ysgol Pum Heol wedi creu poster sy'n dangos disgyblion yn boddli mewn plastig.

Cynigwn felly fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn:

1. Llongyfarch Pwyllgorau Eco'r ysgolion ar chwilio am ffyrdd i beidio â defnyddio deunyddiau plastig untro.
2. Diolch i'r Pwyllgorau Eco am nodi ateb ymarferol i'r gorddefnydd o blastig mewn ysgolion.

3. Nodi ffyrdd o gyflenwi llaeth mewn poteli gwydr y gellir eu hailddefnyddio yn hytrach na phlastig yn ein hysgolion cynradd.”

- 10. PROSES PENODI - CYFARWYDDWR RHAGLEN DINAS RHANBARTH BAE ABERTAWE.** 25 - 28
- 11. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR 3YDD MEHEFIN, 2019.** 29 - 32
- 12. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN).**
- 12.1 IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "A" A GYNHALIWYD AR 9FED MAI, 2019;**
- 12.2 PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU - 9FED MAI, 2019;**
- 12.3 PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD A GYNHALIWYD AR 17EG MAI, 2019;**
- 12.4 PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL & IECHYD A GYNHALIWYD AR 20FED MAI, 2019;**
- 12.5 PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 23AIN MAI, 2019;**
- 12.6 PWYLLGOR CYNLLUNIO A GYNHALIWYD AR 30AIN MAI, 2019;**
- 12.7 CYFARFOD AR Y CYD Y PWYLLGORAU CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD A GOFAL CYMDEITHASOL & IECHYD A GYNHALIWYD AR 10FED MEHEFIN, 2019;**
- 12.8 PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD A GYNHALIWYD AR 10FED MEHEFIN, 2019;**
- 12.9 PWYLLGOR CYNLLUNIO A GYNHALIWYD AR 11EG MEHEFIN, 2019;**
- 12.10 PWYLLGOR SAFONAU A GYNHALIWYD AR 14EG MEHEFIN, 2019.**

DS: Mae adroddiadau yn cael eu hargraffu mewn du a gwyn yn unig er mwyn arbed costau. Fodd bynnag mae pob adroddiad ar gael ar-lein fel y gall aelodau o'r Pwyllgor / Cyngor Sir a'r cyhoedd weld lluniau/graffiau mewn lliw.

Y CYNGOR SIR

DYDD MERCHER, 15 MAI 2019

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

F. Akhtar	S.M. Allen	K.V. Broom	C.A. Campbell
D.M. Cundy	S.A. Curry	C.A. Davies	T.A.J. Davies
G. Davies	H.L. Davies	I.W. Davies	J.A. Davies
K.Davies	S.L. Davies	W.R.A. Davies	E. Dole
J.S. Edmunds	P.M. Edwards	H.A.L. Evans	L.D. Evans
W.T. Evans	A.L. Fox	S.J.G. Gilasbey	A.D. Harries
T.M. Higgins	J.K. Howell	P.M. Hughes	P. Hughes Griffiths
A. James	J.D. James	R. James	D.M. Jenkins
G.H. John	C. Jones	B.W. Jones	D. Jones
G.R. Jones	H.I. Jones	T.J. Jones	A. Lenny
M.J.A. Lewis	K. Lloyd	K. Madge	S. Matthews
A.S.J. McPherson	E. Morgan	S. Najmi	B.D.J. Phillips
J.S. Phillips	D. Price	J.G. Prosser	B.A.L. Roberts
E.M.J.G. Schiavone	A.D.T. Speake	L.M. Stephens	B. Thomas
E.G. Thomas	G. Thomas	J. Tremlett	A.Vaughan Owen
D.T. Williams	D.E. Williams		

Hefyd yn bresennol:

M. James, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
Mrs R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
W. Walters, Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
D. Hockenull, Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 11.00 am - 12.30 pm

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr L. Bowen, D.C. Evans, R. Evans, C. Harris, J.P. Jenkins, A. G. Morgan (sesiwn y bore), D. Nicholas, H. Shephardson, D. Thomas, G.B. Thomas a J.E. Williams.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. **MATERION PERSONOL / CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD OEDD YN GADAEL**

- Estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad diffuant i deulu'r diweddar Gynghorydd Paul James, Ceredigion, aelod blaenllaw o Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, a fu farw yn dilyn damwain ym mis Ebrill;
- Estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i'r canlynol:-
 - Dewi Griffiths, Llanfynydd, ar gael ei ddewis i redeg dros Brydain ym Mhencampwriaethau'r Byd yn dilyn ei lwyddiant ym Marathon Llundain;
 - Helen Gibbon (cerddor), Jonathan Davies a Ken Owens (chwaraewyr rygbi), Aled Samuel (darlledwr) a Nesta Williams (gwaith elusennol) a fyddai'n cael eu derbyn i'r Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru;
 - Tîm Hoci Castellnewydd Emlyn - a enillodd 'Cwpan Hoci Cymru' yng Ngerddi Soffia, Caerdydd;
 - Islwyn Evans, un o weithwyr y Cyngor ac arweinydd Côr Ceredigion, a enillodd 'Côr Cymru' yn ddiweddar.

Croesawodd y Cynghorydd Mansel Charles, sef y cadeirydd a oedd yn ymddeol, westeion nodedig, Cynghorwyr, staff a ffrindiau i'r cyfarfod.

Wrth feddwl am ei flwyddyn yn y swydd, diolchodd y Cynghorydd Charles i'r Prif Weithredwr am ei gyngor a'i arweiniad proffesiynol, ac i'r Cyfarwyddwyr a staff yr Awdurdod oedd yn estyn cymorth i'r Cadeirydd, gan gyfeirio at yr Uned Gwasanaethau Democraataidd, ei yrrwr Jeff Jones, ac yn benodol at Eira Evans am ei chefnogaeth broffesiynol a phersonol, am drefnu ei ddigwyddiadau, ac am sicrhau bod popeth yn mynd yn hwylus bob amser.

Diolchodd i'r Cynghorydd Kevin Madge, sef yr Is-gadeirydd, ac i Mrs Catrin Madge, sef cydymaith y Cynghorydd Madge, am eu cymorth a'u cwmni yn ystod ei gyfnod yn y swydd a dymunodd yn dda i'r Cynghorydd Madge yn ystod ei flwyddyn yn y swydd. Diolchodd hefyd i'w Gaplan Dr. Caroline Jones am ei chefnogaeth ysbrydol a'i harweiniad drwy gydol y flwyddyn.

Diolchodd y Cynghorydd Charles yn ddiffuant am yr holl gefnogaeth a gafodd ef a'i gydymaith drwy gydol yr hyn a ystyriai ef yn bersonol yn flwyddyn lwyddiannus iawn, pan fu'n teithio ledled Sir Gaerfyrddin yn cwrdd â llawer o bobl.

Yn olaf, talodd deyrnged i'w gydymaith, Mrs. Bethan Charles-Davies, a oedd wedi bod wrth ei ochr dros y 12 mis diwethaf a diolchodd yn ffurfiol iddi am ei chefnogaeth. Credai ei fod wedi bod yn anrhydedd ac yn fraint gwasanaethu fel Cadeirydd y Cyngor a diolch i bawb am roi'r cyfle iddo.

4. **ETHOL CADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2019/20**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd J.M. Charles ac eiliwyd gan y Cynghorydd R. James a PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cynghorydd K. Madge yn cael ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Sir Gaerfyrddin am Flwyddyn y Cyngor 2019/20.

Gwnaeth y Cynghorydd Kevin Madge ei ddatganiad yn derbyn y swydd, ac fe'i harwisgwyd â'r Gadwyn Swyddogol gan y Cadeirydd oedd yn ymddeol.

Mynegodd y Cynghorydd Madge ei ddiolch i'r holl Gyngorwyr am eu cefnogaeth o ran ei benodi'n Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin. Dywedodd ei fod yn gobeithio efelychu'r safon uchel o ran Cadeiryddiaeth a ddarparwyd gan ei ragflaenwyr. Talodd y Cynghorydd Madge deyrnged i'r Cadeirydd a oedd yn ymddeol, sef y Cynghorydd J. M. Charles, a chyflwynodd Grogdlws i'r Cadeirydd a oedd yn ymddeol i nodi ei fod yn Gyn-gadeirydd.

Yna cyflwynodd Mrs Bethan Charles-Davies, cydymaith y Cadeirydd oedd yn ymddeol, Gadwyn Swyddogol i Mrs Catrin Madge, a chyflwynodd Mrs Catrin Madge Grogdlws Cydymaith Cyn-gadeirydd i Mrs Bethan Charles-Davies.

TEYRNGEDAU

Hefyd talwyd teyrngedau i'r Cadeirydd oedd yn ymddeol am y gwasanaeth rhagorol a roddodd i'r Cyngor gan arweinwyr Plaid Cymru, y Blaid Annibynnol, y Grŵp Llafur a'r Grŵp Annibynnol Newydd. Cyfeiriwyd yn benodol at gadeiryddiaeth ragorol y Cynghorydd Charles yng nghyfarfodydd y Cyngor. Yn ogystal talodd y Prif Weithredwr deyrnged ar ran staff yr Awdurdod i'r Cadeirydd oedd yn ymddeol, a oedd wedi cyflawni'r rôl mewn modd proffesiynol dros ben gan fod yn hynod o gefnogol i waith y Cyngor.

5. ETHOL IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2019/20

Cynigiwyd gan y Cynghorydd L.M. Stephens ac eiliwyd gan y Cynghorydd J. Tremlett a PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cynghorydd Ieuan Davies yn cael ei ethol yn Is-gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin am Flwyddyn y Cyngor 2019/20.

Gwnaeth y Cynghorydd Ieuan Davies ei ddatganiad yn derbyn y swydd, ac fe'i harwisgwyd â'r Gadwyn Swyddogol.

Estynnodd y Cadeirydd longyfarchiadau i'r Is-gadeirydd a'i Gydymaith ar eu penodiadau.

Cyflwynwyd y Gadwyn Swyddogol i gydymaith yr Is-gadeirydd, Mrs Sue Allen, gan gydymaith y Cadeirydd, Mrs Catrin Madge.

6. GOHIRIAD

Cynigiwyd gan y Cadeirydd ac eiliwyd gan yr Is-gadeirydd a PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y dylid gohirio gweddill y materion ar yr agenda tan 1.30pm y diwrnod hwnnw.

7. Y CYFARFOD A AILYMGYNULLWYD

Roedd y Cyngor wedi ailymgynnull yn y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin am 1.30pm.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd K. Madge (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

F. Akhtar, K.V. Broom, C.A. Campbell, J.M. Charles, D.M. Cundy, S.A. Curry, C.A. Davies, G. Davies, H.L. Davies, I.W. Davies, J.A. Davies, S. Davies, T.A.J. Davies, E. Dole, J.S. Edmunds, P.M. Edwards, H.A.L. Evans, L.D. Evans, W.T. Evans, A.L. Fox, S.J.G. Gilasbey, D. Harries, T. Higgins, J.K. Howell, P. Hughes Griffiths, P.M. Hughes, A. James, J.D. James, R. James, D.M. Jenkins, G.H. John, A.C. Jones, B.W. Jones, D. Jones, G.R. Jones, H.I. Jones, T.J. Jones, A. Lenny, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, S. Matthews, A.S.J. McPherson, A.G. Morgan, E. Morgan, S. Najmi, B.D.J. Phillips, J.S. Phillips, D. Price, J.G. Prosser, B.A.L. Roberts, E.M.J.G. Schiavone, B. Thomas, E.G. Thomas, G. Thomas, J. Tremlett, A. Vaughan Owen, D.T. Williams a D.E. Williams.

Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:

M. James, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
Mrs R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
W. Walters, Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi
L.R. Jones, Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
D. Hockenull, Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democraidd.

Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 1.30 pm - 4.00 pm

8. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau pellach am absenoldeb gan y Cynghorydd S.M. Allen a'r Cynghorydd W.R.A. Davies.

9. DERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR 2018-19

Cyflwynodd yr Arweinydd ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2018-2019, a oedd yn edrych yn ôl ar lwyddiannau'r Cyngor dros y 12 mis diwethaf.

Hwn oedd pedwerydd Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd ac roedd wedi bwrw golwg yn ôl ar yr hyn a ystyriai yn amser prysur iawn i bawb, gan y cynhawliwyd llawer o ddigwyddiadau a gwnaed cynnydd a newidiadau, yn enwedig o ystyried ansicrwydd Brexit a oedd wedi creu ansefydlogrwydd gwleidyddol ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol. Er gwaethaf hyn mynegodd falchder bod yr arweinyddiaeth yn Sir Gaerfyrddin, rhwng Grŵp Plaid Cymru a'r Grŵp Annibynnol, yn gadarn ac yn benderfynol i wneud yr hyn sydd orau i gymunedau lleol.

Atgoffwyd y Cyngor ganddo ei fod wedi cyhoeddi cynllun 5 mlynedd ar ddechrau'r weinyddiaeth bresennol, a oedd yn cynnwys bron 100 o brosiectau a rhaglenni allweddol a fyddai'n cyfrannu at wella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol y preswylwyr a'r cymunedau yn Sir Gaerfyrddin. Nododd yr Adroddiad Blynyddol y cynnydd a wnaed hyd yn hyn gan bob Adran yn y Cyngor. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am rai o'r datblygiadau a'r prosiectau a oedd wedi'u cwblhau neu a oedd ar y gweill, a ddangosai fod Sir Gaerfyrddin yn arwain y ffordd, yn llawn uchelgais, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i breswylwyr, cymunedau ac ymwelwyr. Roedd y rhain yn cynnwys:

Prosiect MakerSpace yn llyfrgelloedd Rhydaman; Apêl Teganau Nadolig; Fforwm 50+; Gwobrau Diwylliant; Cefnogi busnesau bach newydd; Llysgenhadon leuenctid; Cymorth i Fentrau [Coaltown Coffee, Rhydaman]; Safle Buckley ar gyfer tai; Rhaglen cipluniau i ddisgyblion chweched dosbarth; Hyrwyddo busnesau gwledig; Rhentu tai; Tlodi Misglwyf; Cam Cyntaf; Gwobrau Chwaraeon;

Cyflwynodd yr Arweinydd aelodau newydd y bwrdd gweithredol bach, sef 10 plentyn ysgol lleol, a fyddai'n cysgodi eu cymheiriaid hŷn, a phwysleisiodd yr angen i sicrhau bod gan genedlaethau'r dyfodol gyfleoedd gwaith da, cymunedau cefnogol, a lleoedd gwych i'w mwynhau wrth iddynt ddod yn oedolion a magu eu teuluoedd eu hunain.

Cyfeiriwyd at lwyddiannau'r disgyblion o ran TGAU, y Fagloriaeth Genedlaethol a pherfformiad cyfnod allweddol 5 disgyblion 16-18 oed ac estynnodd yr Arweinydd ei ddiolch i'r holl Benaethiaid a staff yn ysgolion y sir am y gofal, arweiniad ac addysg yr oeddent yn eu darparu ar gyfer eu disgyblion. Yn ogystal, mynegodd ei falchder o weld cynnydd yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r dyhead i symud holl ysgolion y sir ymlaen yn y continwrm ieithyddol. Y gobaith oedd y byddai hyn yn galluogi cynifer o bobl ifanc â phosibl yn Sir Gaerfyrddin i fod yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol. Ychwanegodd fod cynnydd y Cyngor ar y rhaglen foderneiddio addysg yn destun balchder. Mae prosiectau gwerth £20m wedi'u cwblhau yn y 12 mis diwethaf. Mae'r buddsoddiad diweddaraf wedi cynnwys cyfleusterau a gwelliannau newydd yn St. John Lloyd, Ysgol Parc y Tywyn, Ysgol Pontyberem, a cham 1 o'r gwaith yn Ysgol Llangadog. Byddai buddsoddiad pellach o £4.1m dros y flwyddyn nesaf yn Ysgol Pump-hewl, a byddai prosiectau eraill yn dechrau'n fuan yn Ysgol Gors-las, Ysgol Pen-bre ac Ysgol Rhys Prichard.

Cyfeiriodd yr Arweinydd ar nifer o ddigwyddiadau uchel eu proffil a gynhaliwyd yn Sir Gaerfyrddin megis yr Ŵyl Cyfryngau Celtaidd, Llanelli, ac yn fwy diweddar, ras feicio Taith Prydain, a oedd wedi bod yn hysbysebion gwych ar gyfer y sir. Roedd Taith Prydain wedi bod yn hynod bwysig i gymunedau ac i'r economi leol, gan helpu i ddenu buddsoddwyr a thwristiaid newydd i Sir Gaerfyrddin. Rhoddodd ganmoliaeth i'r ffordd yr oedd cymunedau lleol wedi gweithio gyda'r Cyngor i sicrhau bod y digwyddiad yn llwyddiant, gan ychwanegu y byddai'r sir yn croesawu ras feicio Taith y Merched ym mis Mehefin.

Dywedodd fod y weinyddiaeth wedi bod yn glir o'r dechrau bod canolbwyntio ar waith adfywio'n allweddol i sicrhau ffyniant y sir. O ganlyniad i waith y Cyngor, mae rhyw £16m o gyllid y sector preifat a'r sectorau allanol wedi'u rhoi i Sir Gaerfyrddin dros y flwyddyn ddiwethaf a chynigiwyd cymorth i greu 419 o swyddi. Roedd cydweithio â phartneriaid allweddol ar gynlluniau ar gyfer datblygiadau yn Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli yn parhau, a'r gobaith yw ymestyn y dyhead hwn dros y flwyddyn nesaf â'r nod o alluogi datblygiad economaidd a chymdeithasol yn y trefi gwledig. Ychwanegodd fod y timau datblygu economaidd wedi bod yn mynd ati i ymgysylltu â busnesau, gan gynnig benthyciadau busnes a grantiau i alluogi twf a datblygiad. Roedd y cymorth ymarferol a gynigiwyd wedi cael eu croesawu gan y sector, gan wneud Sir Gaerfyrddin yn lleoliad deniadol i fuddsoddwyr posibl. Cyfeiriwyd at raglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe, yr oedd yr Awdurdod yn awyddus i wneud cynnydd yn ei chylch ochr yn ochr â'i bartneriaid er mwyn cyflawni'r rhaglen uchelgeisiol o brosiectau a fyddai'n gwneud gwahaniaeth i

genedlaethau'r dyfodol.
Yn ogystal, roedd gwaith wedi'i wneud ar hyd arfordir Sir Gaerfyrddin i baratoi at ddatblygiad Doc y Gogledd yn Llanelli, gwaith i gwblhau gorsaf RNL newydd ym Mhorth Tywyn, a'r seiliau ar gyfer buddsoddiad £7m erbyn 2020 ym Mhentywyn. Roedd gwaith datblygu hefyd wedi parhau yn Cross Hands, ac mae nifer o fynegiannau o ddi-ddordeb wedi cael eu cyflwyno gan ddatblygwyr. Roedd y safle wedi'i gydnabod erbyn hyn fel canolbwynt busnes, gan fod cysylltiadau a seilwaith gwych yn yr ardal a oedd yn ddeniadol iawn i fuddsoddwyr.

I grynhoi, dywedodd yr Arweinydd ei fod yn edrych ymlaen at flwyddyn gyffrous arall a diolchodd i bawb a oedd yn rhan o lwyddiant yr Awdurdod.

Diolchodd Arweinydd y Grŵp Llafur i Arweinydd y Cyngor am ei adroddiad. Mynegodd ei longyfarchiadau i'r Cyngor ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni a thalodd deyrnged i gyfraniad y partneriaid.

Dywedodd y Cynghorydd Mair Stephens, ar ran y Grŵp Annibynnol, fod adroddiad yr Arweinydd yn cynnwys yr holl waith rhagorol sy'n cael ei gyflawni gan yr Awdurdod.

Ymddeoliad Mr Mark James CBE, Prif Weithredwr

Cyfeiriodd yr Arweinydd at ymddeoliad Mr Mark James CBE, Prif Weithredwr, a thalodd deyrnged i'r arweinyddiaeth, y weledigaeth a'r cymorth yr oedd Mr James wedi'u darparu dros yr 20 mlynedd diwethaf yn y swydd. Rhoddwyd albwm lluniau coffaol i Mr James a oedd yn cynnwys lluniau a dynnwyd dros ei gyfnod yn y swydd. Diolchodd Mr James i'r Arweinydd ac i'r Aelodau am eu hanrheg a soniodd ychydig am yr uchafbwyntiau a'r cyflawniadau nodedig yn ystod ei amser yn yr Awdurdod. Diolchodd hefyd i'r Aelodau a'r staff am eu holl gymorth a dymunodd bob llwyddiant i Wendy Walters, y Prif Weithredwr newydd.

Talwyd teyrnged i Mr James gan Arweinwyr y Grŵp Llafur, y Grŵp Annibynnol a'r Grŵp Annibynnol Newydd, ynghyd â nifer o Aelodau eraill.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Adroddiad yr Arweinydd fel y cafodd ei gylchredeg yn ystod y cyfarfod.

10. ARGYMHELLIAD Y BWRDD GWEITHREDOL - CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG SIR GAERFYRDDIN 2018-2033 - FERSIWN DDRAFFT O'R STRATEGAETH CYN-ADNEUO A FFEFRIR

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol wedi ystyried adroddiad ar Fersiwn Ddrafft o'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 yn ei gyfarfod ar 7 Mai 2019, a luniwyd mewn ymateb i benderfyniad y Cyngor ar 10 Ionawr 2019 i ddechrau gwaith paratoi ar y cynllun diwygiedig. Roedd hyn garreg filltir bwysig yng ngwaith y Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol i baratoi cynllun cyfredol ar gyfer y Sir (ac eithrio'r ardal sy'n rhan o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Nodwyd bod yr adroddiad yn cynnwys 344 o sylwadau a ddaeth i law mewn ymateb i'r ymarfer ymgynghori â'r cyhoedd a gynhaliwyd rhwng 12 Rhagfyr 2018 a 8 Chwefror 2019.

Mynegwyd barn ynghylch yr angen i sicrhau bod pryderon o ran seilwaith trafniadaeth a newid yn yr hinsawdd yn cael sylw a'u bod yn sail i ddatblygiadau newydd. Dywedwyd hefyd mai'r gobaith yw y byddai'r CDLI newydd yn caniatáu

datblygiadau bach o dai mewn ardaloedd gwledig a'r gwaith o addasu hen adeiladau'n hybiau economaidd.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:

10.1 bod y sylwadau a ddaeth i law o ran y Fersiwn Ddrafft o'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir yn cael eu nodi a bod yr argymhellion yn cael eu cadarnhau;

10.2 bod y sylwadau ddaeth i law o ran yr Arfarniad Cynaliadwyedd/Adroddiad Cychwynnol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Adroddiad Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu nodi a'r argymhellion yn cael eu cadarnhau

10.3 rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion gyflawni'r canlynol:-

- newid y Strategaeth a Ffefrir yng ngoleuni'r argymhellion sy'n deillio o'r prosesau uchod a'r dystiolaeth sy'n rhan o baratoi'r Fersiwn Adneuo o'r Cynllun Datblygu Lleol;
- gwneud addasiadau teipograffyddol neu ffeithiol ansylweddol yn ôl yr angen, i wella eglurder a chywirdeb y Cytundeb Cyflawni.'

11. CADARNHAU PENODIAD AELODAU I BWYLLGORAU'R CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2019/20

Bu'r Cyngor yn ystyried aelodaeth y Pwyllgorau Rheoleiddio, y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgorau a'r Panelau Eraill ac aelodaeth y pwyllgorau hynny. Cadarnhaodd Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol nad oes unrhyw newidiadau ychwanegol o ran aelodaeth.

Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol a

PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo cyfansoddiad ac aelodaeth y Pwyllgorau Rheoleiddio, y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgorau a'r Panelau Eraill am Flwyddyn y Cyngor 2019/20, fel y manylir arnynt yn yr adroddiad.

12. YR ENWEBIADAU A DDAETH I LAW A PHENODI CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION AR GYFER PWYLLGORAU/PANELAU'R CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2019/20

Yn unol â Rheol 17.6 o'r Weithdrefn Gorfforaethol, bu'r Cyngor yn ystyried yr enwebiadau oedd wedi dod i law ar gyfer penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau am Flwyddyn y Cyngor 2019/20.

Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol a

PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y canlynol yn cael eu penodi'n Gadeiryddion ac yn Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Rheoleiddio, y Pwyllgorau Craffu, a'r Pwyllgorau a'r Panelau Eraill am Flwyddyn y Cyngor 2019/20:-

PWYLLGOR / PANEL

Y Pwyllgor Craffu -
Cymunedau

Y Pwyllgor Craffu - Addysg
a Phlant

Y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r
Cyhoedd a'r Amgylchedd

Y Pwyllgor Craffu – Polisi
ac Adnoddau

Y Pwyllgor Craffu - Gofal
Cymdeithasol ac Iechyd

Y Pwyllgor Apêl

Pwyllgor Penodi A –
Cyfarwyddwyr

Pwyllgor Penodi B -
Penaethiaid Gwasanaeth

Pwyllgor y Gwasanaethau
Democratiaidd

Y Pwyllgor Cynllunio

Y Pwyllgor Trwyddedu

Pwyllgor Penodi Aelodau

Y Panel Adolygu Tai

Pwyllgor Cronfa Bensiwn
Dyfed

CADEIRYDD

I'w benodi gan y
Pwyllgor

Y Cynghorydd D.
Price

Y Cynghorydd J.D.
James

Y Cynghorydd A.G.
Morgan

Y Cynghorydd
G.Thomas

Y Cynghorydd J.K.
Howell

Y Cynghorydd E.
Dole

Y Cynghorydd L.M.
Stephens

Y Cynghorydd S.
Curry

Y Cynghorydd A.
Lenny

Y Cynghorydd E.G.
Thomas

Y Cynghorydd
A.D.T. Speake

Y Cynghorydd G.B.
Thomas

Y Cynghorydd D.E.
Williams

IS-GADEIRYDD

Y Cynghorydd G.B.
Thomas

Y Cynghorydd E.G.
Thomas

Y Cynghorydd A. Vaughan
Owen

Y Cynghorydd G. John

Y Cynghorydd I.W.
Davies

Y Cynghorydd S.M.
Allen

Y Cynghorydd L.M.
Stephens

Y Cynghorydd E. Dole

Y Cynghorydd W.T.
Evans

Y Cynghorydd H.I.
Jones

Y Cynghorydd D.E.
Williams

Y Cynghorydd W.R.A.
Davies

Y Cynghorydd I.W.
Davies

Heb fod yn ofynnol

13. CYFANSODDIAD Y CYNGOR

Bu'r Cyngor yn ystyried adroddiad a oedd yn nodi bod cyfrifoldeb ar y Cyngor yn gyfansoddiadol i fabwysiadu Cynllun Lwfansau'r Cynghorwyr ond mai Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n dynodi'r cyfansymiau i'w talu gyda'r nod o ddarparu fframwaith cenedlaethol cyson o ran cydnabyddiaeth i gynghorwyr. Roedd y Cyngor wedi ystyried newidiadau ar gyfer 2019/20 yn ystod ei gyfarfod ar 10 Ebrill 2019. Roedd copi o'r Cynllun Lwfansau a fabwysiedir gan y Cyngor ar gyfer 2019/20 a oedd wedi'i ddiwygio i'w weithredu am flwyddyn y cyngor 2019/20 wedi'i atodi i'r adroddiad er mwyn ei ystyried.

Nodwyd y dylid hefyd gynnwys enwau'r Cynghorwyr F. Akhtar, J.M. Charles a H.I. Jones ar y rhestr o aelodau sy'n gymwys i gael y taliad cyflog sylfaenol ac y dylid dileu enwau'r Cynghorwyr I.W. Davies a K. Madge.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys diwygiadau i'r swyddogaethau trwyddedu er mwyn adlewyrchu argymhellion Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad ar 8 Mai 2019.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

- 13.1 Mabwysiadu Cynllun Cyflogau a Lwfansau Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig ar gyfer 2019/20 fel y manylir arno yn yr adroddiad;**
- 13.2 Cymeradwyo unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad o ran aelodaeth a wnaed yn gynharach yn y cyfarfod;**
- 13.3 Diwygio swyddogaethau trwyddedu - Swyddogaeth 23 - swyddogaethau Dewis Lleol Rhan 3.1 Tabl 2 yn unol â'r Polisi Trwyddedu diwygiedig a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 12 Rhagfyr 2019;**
- 13.4 Bod y Swyddog Monitro yn cael ei awdurdodi i wneud unrhyw fân newidiadau, cywiro gwallau teipio neu wallau drafftio a sicrhau bod yr holl groesgyfeiriadau yn y Cyfansoddiad yn gywir ac y rhoddir gwybod am y rhain i Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad pan fydd angen;**
- 13.5 Bod Cyfansoddiad y Cyngor ar gyfer 2019/20 yn cael ei fabwysiadu, yn amodol ar argymhellion 1-4 a nodir uchod.**

Y CADEIRYDD

Y DYDDIAD

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

DRAFT MINUTES

DRAFT MINUTES

Meeting ID	2281
Committee	Cyngor Sir
Date	12/06/2019
Attendees	Llinos Quelch (Swyddog) Emma Bryer (Secretary) Jonathan Morgan (Swyddog) Siwan Rees (Swyddog mynediad eithriedig) Alison Davies (Swyddog mynediad eithriedig) Randal Hemingway (Swyddog mynediad eithriedig) Deina Hockenhull (Swyddog mynediad eithriedig) Cyng. Fozia Akhtar (Committee Member) Cyng. Sue Allen (Committee Member) Cyng. Liam Bowen (Committee Member) Cyng. Kim Broom (Committee Member) Cyng. Cefin Campbell (Committee Member) Cyng. Mansel Charles (Committee Member) Cyng. Deryk Cundy (Committee Member) Cyng. Suzy Curry (Committee Member) Cyng. Ann Davies (Committee Member) Cyng. Anthony Davies (Committee Member) Cyng. Arwel Davies (Committee Member) Cyng. Glynog Davies (Committee Member) Cyng. Handel Davies (Committee Member) Cyng. Ieuan Davies (Is-Gadeirydd) Cyng. Joseph Davies (Committee Member) Cyng. Karen Davies (Committee Member) Cyng. Sharen Davies (Committee Member) Cyng. Emlyn Dole (Committee Member) Cyng. Jeff Edmunds (Committee Member) Cyng. Penny Edwards (Committee Member) Cyng. Colin Evans (Committee Member) Cyng. Hazel Evans (Committee Member) Cyng. Linda Evans (Committee Member) Cyng. Rob Evans (Committee Member) Cyng. Tyssul Evans (Committee Member) Cyng. Amanda Fox (Committee Member) Cyng. Jeanette Gilasbey (Committee Member) Cyng. Deian Harries (Committee Member) Cyng. Carl J. Harris (Committee Member) Cyng. Tina Higgins (Committee Member) Cyng. Ken Howell (Committee Member)

Cyng. Peter Hughes Griffiths (Committee Member)
Cyng Philip Hughes (Committee Member)
Cyng. Andrew James (Committee Member)
Cyng. John James (Committee Member)
Cyng. Rob James (Committee Member)
Cyng. David Jenkins (Committee Member)
Cyng. John Jenkins (Committee Member)
Cyng. Gareth John (Committee Member)
Cyng. Carys Jones (Committee Member)
Cyng. Betsan Jones (Committee Member)
Cyng. Dot Jones (Committee Member)
Cyng. Gary Jones (Committee Member)
Cyng. Irfon Jones (Committee Member)
Cyng. Jim Jones (Committee Member)
Cyng. Alun Lenny (Committee Member)
Cyng. Jean Lewis (Committee Member)
Cyng. Ken Lloyd (Committee Member)
Cyng. Kevin Madge (Cadeirydd)
Cyng. Shirley Matthews (Committee Member)
Cyng. Andre McPherson (Committee Member)
Cyng. Eryl Morgan (Committee Member)
Cyng. Giles Morgan (Committee Member)
Cyng. Shahana Najmi (Committee Member)
Cyng. Dai Nicholas (Committee Member)
Cyng. Dorian Phillips (Committee Member)
Cyng. Susan Phillips (Committee Member)
Cyng. Darren Price (Committee Member)
Cyng. John Prosser (Committee Member)
Cyng. Louvain Roberts (Committee Member)
Cyng. Emlyn Schiavone (Committee Member)
Cyng. Hugh Shepardson (Committee Member)
Cyng. Alan Speake (Committee Member)
Cyng. Mair Stephens (Committee Member)
Cyng. Bill Thomas (Committee Member)
Cyng. Dai Thomas (Committee Member)
Cyng. Edward Thomas (Committee Member)
Cyng. Gareth Thomas (Committee Member)
Cyng. Gwyneth Thomas (Committee Member)
Cyng. Jane Tremlett (Committee Member)
Cyng. Aled Vaughan Owen (Committee Member)
Cyng. Dorian Williams (Committee Member)
Cyng. Elwyn Williams (Committee Member)
Cyng. Eirwyn Williams (Committee Member)
Wendy Walters (Swyddog mynediad eithriedig)
Jake Morgan (Swyddog mynediad eithriedig)
Robert Edgecombe (Swyddog mynediad eithriedig)
Mark James (Swyddog mynediad eithriedig)
Chris Moore (Swyddog mynediad eithriedig)

	Press & CSC Committee Reports Email (Notify)
	TranslationUnit (Swyddog)
	Chief Officers PA's & DSO's (Monitro)
	Owen Bowen (Swyddog mynediad eithriedig)
	Ruth Mullen (Swyddog mynediad eithriedig)
	Gareth Morgans (Swyddog mynediad eithriedig)
	Ian Llewelyn (Swyddog mynediad eithriedig)
	Gaynor Morgan (Secretary)
	Linda Rees Jones (Swyddog mynediad eithriedig)
	Paul R Thomas (Swyddog mynediad eithriedig)
	Steve Pilliner (Swyddog)
	Ian R Llewelyn (Swyddog)
